**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At sylw sector yr economi ymwelwyr

**Cynnal amgylchedd diogel o ran COVID yn yr economi ymwelwyr er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid**

Gall pob un ohonom gymryd cysur yn y cynnydd enfawr yr ydym wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf o ran lleihau nifer yr heintiau yn ein cymunedau a brechu'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r cynnydd hwn wedi golygu bod modd ailagor yr economi ac ailddechrau gwasanaethau sydd mor bwysig i lawer o bobl yn raddol.

Gwn, drwy gydol yr argyfwng hwn, gan gynnwys yn ystod agor y sector y llynedd, fod busnesau twristiaeth, lletygarwch a digwyddiadau wedi croesawu'r canllawiau a ddatblygwyd i sicrhau eu bod yn ddiogel o ran COVID ac wedi ymgysylltu â'u swyddogion gorfodi lleol. Gwn hefyd, o adroddiadau gan awdurdodau lleol, fod eu swyddogion allan yn eich cefnogi i ddiogelu eich staff a'ch cleientiaid.

Ar draws economi Cymru, heblaw am un neu ddau eithriad yn unig, mae lefel y gydymffurfiaeth â’r canllawiau wedi bod yn rhagorol. Fodd bynnag, tua diwedd y llynedd, ac yn y busnesau hynny y caniatawyd iddynt aros ar agor dros y misoedd diwethaf, cafwyd rhai digwyddiadau a achosodd pryder, gan gynnwys clystyrau o achosion, adroddiadau am beidio â chydymffurfio â mesurau rheoli COVID ac mae perygl bod yr ymdeimlad o fod ‘wedi blino ar COVID’ wedi dod yn anhawster ar draws nifer o sectorau.

Er gwaetha’r cynnydd a wnaed gennym, nid yw'r egwyddorion sylfaenol a amlinellir yn y canllawiau ar ddiogelwch COVID yn eich sector wedi newid a rhaid inni barhau i sicrhau bod unrhyw gyfle o drosglwyddo’r feirws yn cael ei gyfyngu i’r eithaf. Hoffwn eich atgoffa bod glynu at y rheol 2 fetr lle bynnag y bo modd, dilyn mesurau hylendid dwylo da, defnyddio gorchuddion wyneb yn briodol a chadw manylion cyswllt cwsmeriaid cywir yn hanfodol. Mae’r rheolaethau pwysig hyn yn helpu i liniaru unrhyw risg i'ch staff a'ch cwsmeriaid.

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau wedi gweithio'n agos gyda swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i sicrhau y gallant ddarparu gwasanaeth sydd wirioneddol ei angen mewn modd sydd mor ddiogel â phosibl. Rwy'n gwybod pa mor llwyddiannus fu'r cydweithio a'ch bod yn deall bod gan swyddogion gorfodi awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i arolygu a chynghori busnesau ar ofynion y rheoliadau Coronafeirws. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gydnabod a'u bod yn cael eu trin â pharch, gennych chi a'ch cwsmeriaid. Er mwyn darparu cymorth rydym wedi llunio cardiau gweithredu Cerdyn Gweithredu Busnes Twristiaeth a Lletygarwch / Cerdyn Gweithredu Cwsmeriaid Twristiaeth a Lletgarwch sy'n tynnu sylw at yr ymateb a ddisgwylir gan yr holl bartneriaid ar gyfer cadw pawb yn ddiogel, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol Arweiniad Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch / UK Hospitality Cymru / Pecyn Cymorth Busnes Cymru .

Rwy'n hyderus, drwy weithio gyda’n gilydd, y gallwn barhau i gynnig gwasanaeth diogel a werthfawrogir gan bawb. Diolch yn fawr am eich ymdrechion i ddiogelu Cymru.

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

Yours sincerely



**DR FRANK ATHERTON**